



edexcel 

Unedau

Dyfarniadau Cyntaf BTEC

Edexcel BTEC Lefel Cyntaf 2 mewn Iechyd a Gofal
Cymdeithasol

I'w haddysgu gyntaf Medi 2010

Rhifyn 2



Translated by: Fiona Gannon

Proofread by: Heini Gruffudd

Cynnwys

Uned 1:	Cyfathrebu ym maes lechyd a Gofal Cymdeithasol	1
Uned 2:	Hawliau'r unigolyn ym maes lechyd a Gofal Cymdeithasol	5
Uned 3:	Anghenion Unigolion ym maes lechyd a Gofal Cymdeithasol	11
Uned 4:	Sicrhau Amgylcheddau Diogel ym maes lechyd a Gofal Cymdeithasol	15
Uned 5:	Profiad Galwedigaethol mewn Lleoliad lechyd neu Ofal Cymdeithasol	21
Uned 6:	Amrywiaeth Diwylliannol ym maes lechyd a Gofal Cymdeithasol	27
Uned 7:	Anatomeg a Ffisioleg ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol	33
Uned 8:	Datblygiad Hyd Oes Dynol	39
Uned 9:	Gweithgareddau Creadigol a Therapiwtig ym maes lechyd a Gofal Cymdeithasol	45
Uned 10:	Gwasanaethau lechyd a Gofal Cymdeithasol	51
Uned 11:	Effaith Deiet ar lechyd	57

Uned 1: Cyfathrebu ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cod yr Uned: H/600/6872

FfCCH Lefel 2: BTEC Cyntaf

Gwerth credydau: 5

Oriau dysgu dan arweiniad: 30

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi'r dysgwyr i gaffael yr wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau ymarferol y mae arnynt eu hangen i fedru cyfathrebu'n effeithiol mewn amgylchedd iechyd a gofal cymdeithasol. Ar hyd yr uned hon bydd y dysgwyr yn ymchwilio i wahanol ddulliau o gyfathrebu ac yn dysgu amdanynt, yn dod i ddeall rhwystrau i gyfathrebu, ac yn gallu cyfathrebu'n effeithiol.

Cyflwyniad i'r uned

Mae angen sgiliau cyfathrebu da ar weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn datblygu perthnasoedd cadarnhaol a rhannu gwybodaeth gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd, eu gofalwyr, cydweithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill. Mae'n bwysig, felly, bod y rhai sy'n cychwyn ar yrfa ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn caffael yr wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau gofynnol er mwyn datblygu sgiliau rhyngpersonol priodol.

Mae'r uned hon yn cysylltu ag *Uned 3: Anghenion Unigolion yn y Sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol*, *Uned 5: Profiad Galwedigaethol mewn Lleoliad Iechyd neu Ofal Cymdeithasol* ac *Uned 6: Amrywiaeth Diwylliannol ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol* gan y bydd yn datblygu dealltwriaeth y dysgwyr o sut mae addasu eu cyfathrebu er mwyn diwallu anghenion unigol pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol, gan gynnwys gwahaniaethau diwylliannol. Mae'r uned hefyd yn darparu sylfaen ar gyfer datblygiad personol a phroffesiynol. Gellir trosglwyddo'r wybodaeth a'r sgiliau a ddatblygir trwy astudio'r uned hon i amrywiaeth o wahanol rolau.

Ar y cychwyn, bydd y dysgwyr yn canolbwyntio ar y gwahanol ddulliau o gyfathrebu y gellir eu defnyddio mewn amgylchedd iechyd a gofal cymdeithasol. Edrychir ar ddulliau cyfathrebu geiriol a di-eiriau. Mae angen i ddysgwyr ddod i ddeall y cylch cyfathrebu, gan ystyried y strategaethau sydd i'w defnyddio ym mhob cam er mwyn sicrhau bod y cyfathrebu'n effeithiol a bod negeseuon yn cael eu deall. Mae'n bwysig bod dysgwyr yn adnabod ystod o ffactorau, megis rhai amgylcheddol neu rai yn ymwneud ag anabledd, iechyd neu faterion emosiynol, a all greu rhwystrau i gyfathrebu. Wedyn bydd y dysgwyr yn ystyried sut gellir goresgyn y rhwystrau hyn, gan gynnwys defnyddio dulliau cyfathrebu amgen.

Mae'n bwysig bod dysgwyr yn cael cyfle i arsylwi a thrafod y strategaethau cyfathrebu a ddefnyddir gan y rhai sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, ac yn gallu ymarfer a mireinio'u sgiliau ar gyfer cyfathrebu'n effeithiol yn y maes. Bydd gofyn bod dysgwyr yn arddangos eu sgiliau cyfathrebu mewn sefyllfaoedd un i un ac mewn grwpiau.

Mae'r uned hon yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddatblygu a chymhwyso Sgiliau gweithredol Lefel 2 mewn Cymraeg/Saesneg a TGCh, a sgiliau personol, dysgu a meddwl.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Wybod am y gwahanol ffyrdd o gyfathrebu
- 2 Deall y rhwystrau i gyfathrebu effeithiol
- 3 Gallu cyfathrebu'n effeithiol.

Cynnwys yr Uned

1 Gwybod am y gwahanol ffyrdd o gyfathrebu

Cyd-destunau: un i un, grwpiau, ffurfiol, anffurfiol; gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau, cydweithwyr, rheolwyr

Dulliau o gyfathrebu: geiriol, di-eiriau: iaith y corff, e.e. safiad, ystumiau; mynegiant ar yr wyneb; cyffyrddiad neu gyswllt; defnyddio arwyddion, symbolau a lluniau, gwrthrychau y cyfeirir atynt; ysgrifennu; cymhorthion technolegol

Dulliau cyfathrebu amgen: defnyddio, e.e. iaith arwyddion, darllen gwefusau, Makaton, arwyddion a symbolau, Braille, cymhorthion technolegol; cymhorthion dynol, e.e. dehonglwyr, cyfieithwyr, arwyddwyr

2 Deall y rhwystrau rhag cyfathrebu effeithiol

Cylch cyfathrebu: syniadau'n digwydd, codio'r neges, anfon y neges, derbyn y neges, dadgodio'r neges, deall y neges

Ffactorau sy'n effeithio ar gyfathrebu: ffactorau, e.e. amddifadedd synhwyraidd, iaith dramor, jargon, iaith sathredig, tafodiaith, defnydd o acronymau, gwahaniaethau diwylliannol, trallod, anawsterau emosiynol, anabledd, materion iechyd, problemau amgylcheddol, camddehongli'r neges, synnwyr digrifwch gwahanol, ymddygiad amhriodol, ymosodedd, pendantrwydd

Goresgyn rhwystrau rhag cyfathrebu: dulliau, e.e. addasu'r amgylchedd, deall anghenion a dewisiadau iaith, defnyddio dewis iaith yr unigolyn, amseru, dyfeisiau electronig (ffonau testun, mwyhaduron ffôn, dolenni clyw)

3 Gallu cyfathrebu'n effeithiol

Sgiliau ar gyfer cyfathrebu effeithiol: gwrando gweithredol; iaith y corff; mynegiant yr wyneb; cyswllt llygad; defnydd o iaith briodol; goslef; cyflymdra; agosrwydd; egluro neu ailadrodd

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio			
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:		I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	
LI1	nodi gwahanol ddulliau o gyfathrebu [YA2, YA4, GT1, HR3]	T1	disgrifio gwahanol ddulliau o gyfathrebu
LI2	esbonio rhwystrau rhag cyfathrebu effeithiol mewn amgylchedd iechyd a gofal cymdeithasol [YA2, MC1, YA4, HR3]		
LI3	cymryd rhan mewn rhyngweithio effeithiol un i un [YA4, MC5, DM1, GT3, HR3]	T2	disgrifio'r rhwystrau rhag cyfathrebu effeithiol yn eu dau rhyngweithiad.
LI4	cymryd rhan mewn rhyngweithio grŵp effeithiol. [MC5, DM1, GT3, HR3]		

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 2: **Hawliau'r unigolyn ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

Cod yr Uned: K/600/6873

FfCCH Lefel 2: BTEC Cyntaf

Gwerth credydau: 5

Oriau dysgu dan arweiniad: 30

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi'r dysgwyr i gaffael gwybodaeth a dealltwriaeth o'r materion y mae angen eu hystyried wrth weithio mewn amgylcheddau iechyd a gofal cymdeithasol mewn cymdeithas amlddiwylliannol. Bydd y dysgwyr yn ymchwilio i'r ffactorau niferus sy'n cyfrannu at gymdeithas amrywiol a chyfartal, a'r egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n sylfaen ar gyfer y gefnogaeth a roddir i unigolion.

Cyflwyniad i'r uned

Mae'n bwysig bod darpar weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn datblygu dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n troi o gwmpas amrywiaeth unigolion mewn cymdeithas; mae hefyd yn bwysig sylweddoli sut mae hyn yn effeithio ar arfer iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r ffactorau hyn yn cynnwys cydnabod hawliau unigolion, er enghraifft yr hawl i gael eu parchu, i gael eu trin yn gyfartal, yn deg, ac i beidio â dioddef camwahaniaethu. Mae'r uned yn elfen hanfodol wrth baratoi ar gyfer profiad gwaith. Argymhellir, felly, fod yr uned yn cael ei chyflwyno ar ddechrau'r rhaglen.

Mae'r uned yn cyflwyno'r dysgwyr i faterion amrywiaeth a sut mae egwyddorion sylfaenol arfer iechyd a gofal cymdeithasol moesegol yn gallu cael eu defnyddio i hybu cydraddoldeb a hawliau'r unigolyn. Datblygir cydraddoldeb, amrywiaeth, hawliau a chyfrifoldebau unigolion ymhellach yn *Uned 6: Amrywiaeth Diwylliannol ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol*. Mae'r uned hefyd yn rhoi cyfle i'r dysgwyr gyflawni Sgiliau gweithredol Lefel 2 mewn TGCh a Chymraeg/Saesneg, a sgiliau personol, dysgu a meddwl.

Canlyniadau dysgu

Wedi cwblhau'r uned hon dylai dysgwyr:

- 1 Wybod am y ffactorau sy'n cyfrannu at gymdeithas amrywiol a chyfartal
- 2 Deall yr egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n darparu sylfaen ar gyfer y gefnogaeth aroddir i unigolion.

Cynnwys yr Uned

1 Gwybod am ffactorau sy'n cyfrannu at gymdeithas amrywiol a chyfartal

Ffactorau cymdeithasol: amrywiaeth, e.e. diwylliant, ethnigrwydd, ffydd, rhyw, rhywioldeb, oedran, strwythur y teulu, dosbarth cymdeithasol, lleoliad daearyddol

Ffactorau gwleidyddol: rôl, e.e. deddfwriaeth, polisi, y wladwriaeth les, cyflenwi gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol

Cydraddoldeb: arfer nad yw'n camwahaniaethu; arfer camwahaniaethol, e.e. stereoteipio, labelu, rhagfarn

Ffactorau biolegol: nodweddion corfforol; anabledau, e.e. dysgu, corfforol

2 Deall yr egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n darparu sylfaen ar gyfer y gefnogaeth a roddir i unigolion

Ystyriaethau moesegol: yr hawl i fywyd; cyfiawnder cymdeithasol; agwedd person-ganolog; disgwyliadau'r unigolion sy'n derbyn y gwasanaeth; empathi, gonestrwydd; glynu at godau ymarfer a pholisïau

Hawliau'r unigolyn: hawliau i gael eu parchu; eu trin yn gyfartal, heb wahaniaethu yn eu herbyn; eu trin fel unigolion; eu trin mewn modd urddasol; caniatáu preifatrwydd; eu diogelu rhag perygl a niwed; caniatáu iddynt gael mynediad i wybodaeth amdanynt eu hunain; gallu cyfathrebu gan ddefnyddio'u dewis ddull cyfathrebu a iaith; cael eu cefnogi mewn modd sy'n diwallu eu hanghenion ac yn rhoi sylw i'w dewisiadau

Cyfrifoldebau gweithwyr: darparu cefnogaeth weithredol i alluogi pobl sy'n defnyddio gwasanaethau i gyfleu eu hanghenion, eu barn a'u dewisiadau; defnyddio cyfathrebu i gefnogi amrywiaeth, cynhwysiad a hyrwyddo cyfle cyfartal; cyfrinachedd; datgeliad; ymdrin â thensiynau rhwng hawliau a chyfrifoldebau; pwysigrwydd cofnodion cywir, storio ac adalw gwybodaeth (gan gynnwys dulliau electronig), ffeilio'n gywir ac yn ddiogel; gofynion Deddf D iogelu Data 1998 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2005

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 nodi ffactorau sy'n cyfrannu at gydraddoldeb unigolion mewn cymdeithas [YA2, YA4, MC2, DM3, DM4, HR2, HR3, CE5]		
LI2 esbonio hawliau unigol y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau [YA2, MC2, DM3, DM4, HR2, HR3, CE5]		
LI3 esbonio'r egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n darparu sylfaen ar gyfer y gefnogaeth a roddir i unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau. [YA2, YA4, MC2, MC4, DM3, DM4, HR2, HR3, CE5]	T3 trafod yr egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n darparu sylfaen ar gyfer y gefnogaeth a roddir i unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau.	Rh3 asesu sut mae'r egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n sylfaen ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn gysylltiedig â hybu hawliau unigolion.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 3: Anghenion Unigolion ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cod yr Uned: M/600/6874

FfCCH Lefel 2: BTEC Cyntaf

Gwerth credydau: 5

Oriau dysgu dan arweiniad: 30

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi'r dysgwyr i gaffael yr wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sy'n gysylltiedig â diwallu anghenion unigolion. Byddant yn edrych ar ddylanwad yr anghenion hyn ar iechyd a lles a sut gellir ymdrin â hwy er mwyn gwella iechyd a lles unigolyn.

Cyflwyniad i'r uned

Mae gwybodaeth a dealltwriaeth o anghenion unigolion yn hanfodol i gyflenwi iechyd a gofal cymdeithasol effeithiol. Mae angen asesu anghenion unigolion cyn bod modd datblygu cynllun i ymateb i'w hanghenion. Yn yr uned hon bydd y dysgwyr yn archwilio gwahanol anghenion mewn perthynas â hierarchaeth anghenion Maslow, ac yn ystyried sut gall anghenion amrywio yng ngwahanol gyfnodau bywyd. Oherwydd cyfyngiadau moesegol ni fydd y dysgwyr yn gallu ymchwilio i anghenion ond yng nghyswllt iechyd a lles cyffredinol, ac nid yng nghyswllt anghenion iechyd a gofal cymdeithasol mwy penodol. Mae'r uned yn gofyn bod dysgwyr yn casglu gwybodaeth berthnasol gan unigolyn er mwyn gallu adnabod anghenion cyffredinol yr unigolyn dan sylw a defnyddio'r wybodaeth o'r asesiad hwnnw i ddatblygu cynllun ar gyfer gwella iechyd a lles cyffredinol yr unigolyn.

Mae cysylltiad agos rhwng yr uned hon a'r holl unedau eraill yn y cymhwyster hwn. Mae *Uned 1: Cyfathrebu ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol* yn cyflwyno'r sgiliau rhyngpersonol sy'n hanfodol wrth gynllunio ar gyfer diwallu anghenion iechyd unigolion. Bydd yr unedau arbenigol yn cynorthwyo'r dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o anghenion cyfannol unigolion, er enghraifft anghenion diwylliannol (Uned 6), anghenion corfforol, gan gynnwys rhai deietegol (Unedau 7, 8 ac 11) ac anghenion deallusol, emosiynol a chymdeithasol (Uned 9). Bydd *Uned 5: Profiad Galwedigaethol mewn Lleoliad Iechyd neu Ofal Cymdeithasol* yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr arsylwi a chynnal iechyd a lles unigolion mewn amgylchedd go iawn. Bydd Uned 10: Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn datblygu dealltwriaeth y dysgwyr o rôl gweithwyr proffesiynol, o fewn ac ar draws gwahanol wasanaethau, a sut mae rhaid i wasanaethau gydweithio er mwyn diwallu anghenion cyfannol unigolion.

I gychwyn, bydd y dysgwyr yn archwilio anghenion beunyddiol unigolion a sut gall y rhain newid yng ngwahanol gyfnodau bywyd. Bydd cyflwyniad i hierarchaeth anghenion Maslow yn herio'r dysgwyr i ystyried anghenion sylfaenol a rhai lefel uwch. Cyflwynir sut mae ystod o ffactorau yn dylanwadu ar anghenion a'u heffeithiau ar iechyd a lles. Bydd y dysgwyr yn archwilio'r cylch asesu: cynllunio, gweithredu ac adolygu. Yn olaf, rhaid i'r dysgwyr nodi anghenion iechyd penodol unigolyn ac ystyried sut gellir ymdrin â hwy.

Mae'r uned hon yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddatblygu a chymhwyso Sgiliau gweithredol Lefel 2 mewn Cymraeg/Saesneg a TGCh, a sgiliau personol, dysgu a meddwl.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Wybod am anghenion beunyddiol unigolion
- 2 Deall y ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd ac anghenion unigolion
- 3 Gallu cynllunio ar gyfer diwallu anghenion iechyd a lles unigolyn.

Cynnwys yr Uned

1 Gwybod am anghenion beunyddiol unigolion

Pwysigrwydd anghenion: hierarchaeth Maslow yng nghyswllt anghenion corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol

Anghenion corfforol: pwysigrwydd, e.e. bwyd, dŵr, cysgod, cynhesrwydd, ymarfer corff, cwsg, diogelwch, diogeledd

Anghenion deallusol: dysgu; cyflawniad; gweithgaredd meddyliol

Anghenion emosiynol: pwysigrwydd, e.e. perthnasoedd, anwyldeb, cariad, hunan-gysyniad, cyflawniad, parch

Anghenion cymdeithasol: pwysigrwydd, e.e. teulu, ffrindiau, aelodaeth o grŵp, cymuned; ymdeimlad o berthyn, cael eich derbyn

Anghenion ysbrydol: pwysigrwydd, e.e. credoau personol, crefydd

2 Deall y ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd ac anghenion unigolion

Socio-economaidd: ffactorau, e.e. dosbarth cymdeithasol, cyflogaeth, diwylliant, amodau byw, incwm, addysg

Corfforol: ffactorau, e.e. etifeddiaeth enetig, anabledd, nam synhwyraidd, oedran, rhyw; amgylcheddol, e.e. iechydaeth, llygredd

Ffordd o fyw: ffactorau, e.e. hylendid personol, deiet, ymarfer corff, smygu, camddefnyddio sylweddau, straen, patrwm gwaith, arferion rhywiol, rhwydweithiau cymdeithasol a chymunedol

Iechyd: ffactorau, e.e. haint, anaf, iechyd meddwl, presenoldeb anhwylder cronig

3 Gallu cynllunio ar gyfer diwallu anghenion iechyd a lles unigolyn

Anghenion: rhoi sylw fel sy'n briodol i'r canlynol, e.e. corfforol, cymdeithasol, emosiynol, deallusol; anghenion iechyd sy'n deillio o awydd i wella iechyd unigolyn, e.e. colli pwysau, rhoi'r gorau i smygu, lleihau faint o alcohol a yfir

Asesu iechyd a lles cyffredinol: holi i gasglu gwybodaeth sy'n berthnasol i iechyd a lles, e.e. mewn cyfweiliad, gan ddefnyddio holiadur; mesuriadau corfforol, e.e. taldra, pwysau, cyfradd curiad y galon, cyfradd resbiradu wrth ymdrechu; dehongli, e.e. ffactorau sy'n berthnasol i gyfraniad cadarnhaol a negyddol yr unigolyn at iechyd a lles; cyfrifo BMI; cyflwr iechyd yn ôl y mesuriadau corfforol

Cynllunio: pennu targedau tymor byr a thymor hwy ar gyfer gwella iechyd; cynllun gweithredu er mwyn i'r unigolyn gyflawni anghenion a thargedau; sut bydd y cynnydd o ran cyrraedd y targedau yn cael ei fonitro

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 amlinellu anghenion beunyddiol unigolion [YA1, YA2, DM3, HR2, HR3]		
LI2 esbonio'r ffactorau sy'n effeithio ar anghenion beunyddiol unigolion [YA1, YA2, DM3, HR2, HR3]		
LI3 cynnal asesiad o iechyd a lles unigolyn [YA1, MC1, DM3, GT3, HR2, HR3, CE4]		
LI4 cynhyrchu cynllun ar gyfer gwella iechyd a lles unigolyn. [YA3, YA4, YA5, MC1, DM6, HR2]	T1 esbonio sut mae'r cynllun yn diwallu anghenion iechyd a lles yr unigolyn.	Rh1 cyfiawnhau sut mae'r cynllun yn rhoi sylw i amgylchiadau a dewisiadau'r unigolyn.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 4: Sicrhau Amgylcheddau Diogel ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cod yr Uned:	T/600/6875
FfCCH Lefel 2 :	BTEC Cyntaf
Gwerth credydau:	5
Oriau dysgu dan arweiniad:	30

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi'r dysgwyr i archwilio'r wybodaeth a'r sgiliau sy'n gysylltiedig â materion iechyd a diogelwch, gan gynnwys deddfwriaeth mewn amgylcheddau iechyd a gofal cymdeithasol, asesu risgiau a'r camau y mae angen eu cymryd i leiafu peryglon a risgiau posib. Mae'n bwysig bod dysgwyr yn datblygu gwybodaeth am beryglon a risgiau, deddfwriaeth berthnasol a defnydd a phroses asesu risgiau.

Cyflwyniad i'r uned

Mewn amgylcheddau iechyd a gofal cymdeithasol, fel ym mhob rhan o'n bywydau, mae llawer o beryglon y mae angen eu nodi a'u rheoli gan gyflogwyr a gweithwyr er mwyn sicrhau amgylchedd diogel i bawb sy'n defnyddio gwasanaeth.

Mae'r uned yn edrych ar y peryglon a'r risgiau posib y ceir hyd iddynt mewn amgylcheddau iechyd a gofal cymdeithasol a chyfrifoldebau cyflogwyr a gweithwyr yng nghyswllt y rhain. Bydd y dysgwyr yn edrych ar ystod o ddeddfwriaeth a chanllawiau iechyd a diogelwch sydd yn bodoli i leiafu a rheoli peryglon a risgiau ac i amddiffyn unigolion a grwpiau mewn cymdeithas. Edrychir ar y defnydd o asesu risgiau. Bydd y dysgwyr yn cynllunio a dylunio asesiad risg ac yn ei gyflawni mewn amgylchedd iechyd neu ofal cymdeithasol, gan ei ddefnyddio yn sail ar gyfer achos sy'n darbwyllo o blaid gweithredu. Mae hon yn uned Arbenigol ddewisol yn Nhystysgrif BTEC Cyntaf Lefel 2 Edexcel ac yn y Diploma Cyntaf mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'n baratoad defnyddiol ar gyfer gwaith yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, a hefyd ar gyfer dysgwyr sy'n bwriadu symud ymlaen i

Ddiploma Cenedlaethol BTEC Lefel 3 Edexcel mewn Iechyd a/neu Ofal Cymdeithasol neu BTEC Cenedlaethol Lefel 3 Edexcel mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant.

Mae'r uned hon yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddatblygu a chymhwyso Sgiliau gweithredol Lefel 2 mewn Cymraeg/Saesneg a TGCh, a sgiliau personol, dysgu a meddwl.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Wybod am beryglon posib mewn amgylcheddau iechyd a gofal cymdeithasol
- 2 Gwybod am brif egwyddorion deddfwriaeth iechyd a diogelwch a gymhwysir i amgylcheddau iechyd a gofal cymdeithasol
- 3 Deall prosesau asesu risg sy'n gysylltiedig â iechyd neu ofal cymdeithasol.

Cynnwys yr Uned

1 Gwybod am beryglon posib mewn amgylcheddau iechyd a gofal cymdeithasol

Techneg: rheoli'r anadlu; allanoli; ynganiad; traw; ymarferion lleisiol; tonyddiaeth; dysgu llinellau; goslef

Mynegiant: newid cywair; cyflymdra; brawddeg; acennu; pwyslais; defnydd o saib; tafodiaith; cyfathrebu ystyr; seiniau geiriau; ansawdd tŵn, lliw lleisiol

2 Gwybod am brif egwyddorion deddfwriaeth iechyd a diogelwch a gymhwysir i amgylcheddau iechyd a gofal cymdeithasol

Deddfwriaeth a chanllawiau: adrannau perthnasol o'r ddeddfwriaeth briodol, e.e. Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith; Deddf Diogelwch Bwyd; Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd Cyffredinol); Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chario; Rheoliadau Adrodd am Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR); Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith; Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH)

3 Deall prosesau asesu risg sy'n gysylltiedig â iechyd neu ofal cymdeithasol

Nodi'r risgiau: nodi peryglon a allai achosi risgiau mewn gweithgareddau beunyddiol

Amcangyfrif y risg: graddfa'r risg; cysyniad tebygolrwydd y risg; lefel y niwed posib i wahanol grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaeth

Rheoli risgiau: camau posib i leihau neu ddileu risgiau

Monitro effeithiolrwydd dulliau rheoli: cyfarwyddiadau ar gyfer rheoli risgiau; rhoi dulliau rheoli ar waith; adolygu risgiau a dulliau rheoli yn gyson; cadw cofnodion; rolau'r swyddog iechyd a diogelwch a gweithwyr gofal; polisïau a gweithdrefnau

Gweithgareddau pob dydd: risgiau yng nghyswllt, e.e. gofal personol, paratoi a bwyta bwyd, symudedd a theithio, gwaith neu addysg, hobiau/hamdden

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 nodi peryglon posib a allai godi mewn amgylcheddau iechyd a gofal cymdeithasol [YA3, MC4, DM5, GT1, GT2, HR3, HR5]		
LI2 amlinellu prif nodweddion deddfwriaeth iechyd a diogelwch gyfredol fel y'u cymhwysir ym maes iechyd a gofal cymdeithasol [YA4, MC4, DM5, GT2, HR5]		
LI3 esbonio prosesau asesu risg yng nghyd-destun gweithgareddau pob dydd ym maes iechyd neu ofal cymdeithasol. [YA4, MC4, HR5, CE2]	T1 cynnal asesiad risg o safle o dan do a ddefnyddir ar gyfer gweithgaredd pob dydd.	Rh1 trafod ffyrdd posib o leihau'r risg i ddefnyddwyr y safle o dan do.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnodu, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 5: Profiad Galwedigaethol mewn Lleoliad Iechyd neu Ofal Cymdeithasol

Cod yr Uned:	A/600/6876
FfCCH Lefel 2 :	BTEC Cyntaf
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Yn yr uned hon bydd y dysgwyr yn paratoi ar gyfer o leiaf 60 awr o brofiad gwaith ac yn eu cwblhau mewn rôl ofal mewn lleoliadau iechyd neu ofal cymdeithasol. Bydd y dysgwyr yn cadw cofnod o'u profiadau ar leoliad.

Cyflwyniad i'r uned

Mae profiad gwaith yn elfen hanfodol o'r uned hon. Yn ddelfrydol, bydd y dysgwyr yn cael cyfle i dreulio amser mewn dau leoliad iechyd neu ofal cymdeithasol gwahanol, gan weithio gyda defnyddwyr gwasanaeth gwahanol. 60 awr yw'r isafswm sy'n ofynnol, a gellir trefnu lleoliadau ar ffurf cyfnod wythnosol rheolaidd neu mewn blociau, ond dylai hynny fod ar ben yr amser dysgu ac addysgu yn y coleg neu'r ysgol. Argymhellir yr uned yn gryf yn arbennig ar gyfer dysgwyr sy'n dilyn Tystysgrif BTEC Lefel 2 Estynedig Edexcel a'r Diploma BTEC Lefel 2 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Yn gyntaf bydd y dysgwyr yn paratoi ar gyfer eu lleoliad trwy edrych ar wahanol ffyrdd o gyflwyno cais am swydd, ac ymchwilio i amrywiaeth o gyfleoedd am swyddi a ffyrdd o symud ymlaen ar ôl eu hastudiaethau Lefel 2. Bydd y dysgwyr yn ymarfer sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a rhyngbersonol priodol. Wedyn cânt gyfweiliad at ddiben gwirioneddol, neu mewn efelychiad, gan rywun ag awdurdod priodol sydd yn gyfarwydd â disgwyliadau gwaith ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a byddant yn myfyrio ar effeithiolrwydd y sgiliau cyfweiliad a ddefnyddiwyd ganddynt.

Mae'r uned hon yn cysylltu â phob uned arall ar y cwrs, yn arbennig *Uned 2: Hawliau'r Unigolyn ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol*, *Uned 3: Anghenion yr unigolyn ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol* ac *Uned 9: Gweithgareddau Creadigol a Therapiwtig ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol*.

Mae'r uned hon yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddatblygu a chymhwyso Sgiliau gweithredol Lefel 2 mewn Cymraeg/Saesneg a TGCh, a sgiliau personol, dysgu a meddwl.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Allu cwblhau'r broses o gyflwyno cais am gyfnod o brofiad gwaith mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol
- 2 Gallu cwblhau cyfnod o brofiad gwaith mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol
- 3 Gallu arddangos sgiliau rhyngpersonol mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol
- 4 Gallu myfyrio ar eu perfformiad eu hunain mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol.

Cynnwys yr Uned

1 **Gallu cwblhau'r broses o gyflwyno cais am gyfnod o brofiad gwaith mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol**

Dulliau o gyfleu gwybodaeth bersonol: gweithdrefnau gwneud cais; cwblhau ffurflenni cais; llythyrau cais; llythyrau derbyn/gwrthod; cynnwys a fformat priodol; CV priodol; defnydd o TGCh

Sgiliau cyfweiliad: sgiliau cyfathrebu geiriol a di-eiriau; pwysigrwydd gwranddo, ateb cwestiynau; gofyn cwestiynau; sgiliau personol a chymdeithasol; prydlondeb

Paratoi ar gyfer cyfweiliad: sgiliau ffôn; cludiant; codau gwisg; golwg gyffredinol; cyfleu diddordeb; cwestiynau priodol; gwybodaeth am weithdrefnau cyfweld; cynllunio

2 **Gallu cwblhau cyfnod o brofiad gwaith mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol**

Sgiliau ar gyfer profiad gwaith: prydlondeb; presenoldeb rheolaidd; rhoi gwybod am ddigwyddiadau a damweiniau yn amserol; gallu i ddilyn cyfarwyddiadau; ymateb i feirniadaeth gadarnhaol; gwaith tîm; cwblhau pob tasg; deall dyletswydd gofal; ymwybyddiaeth o'u diogelwch eu hunain a diogelwch pobl eraill; deall terfynau eu rôl eu hunain; rhyngweithio gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau, staff iechyd a gofal cymdeithasol, oedolion eraill o fewn y lleoliad; agwedd broffesiynol

Lleoliadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol: statudol, gwirfoddol, preifat; gwahanol grwpiau o unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau; rhesymau dros y dewis o leoliad; priodoldeb y dewis ar gyfer y dysgwr

3 **Gallu arddangos sgiliau rhyngbersonol mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol**

Sgiliau rhyngbersonol: cyfathrebu geiriol; llafar clir, heb ddefnyddio iaith sathredig na jargon, aralleirio priodol; cyfathrebu di-eiriau; safiad y corff, defnydd priodol o ystumiau; cyswllt llygad; mynegiant ar yr wyneb, defnydd priodol o gyffyrddiad; cydnabod gofod personol a chyhoeddus; sgiliau gwranddo

4 **Gallu myfyrio ar eu perfformiad eu hunain mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol**

Eu perfformiad eu hunain: cyflawniadau personol; yr wybodaeth a'r sgiliau a gafwyd, e.e. hyder, gwybodaeth am y lleoliad/cyflyrau meddygol, y gweithgareddau a gyflawnwyd; cryfderau a gwendidau personol, e.e. defnyddio menter, gallu i ddilyn cyfarwyddiadau, derbyn beirniadaeth adeiladol; defnydd o sgiliau rhyngbersonol; cofnodi adfyfyrion ac adeiladu arnynt; cynlluniau datblygu gyrfa/cyfleoedd i symud ymlaen

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 cwblhau llythyr cais priodol, gyda CV ynghlwm, at leoliad iechyd a gofal cymdeithasol lleol [YA2, MC4, HR3]		
LI2 cynllunio'n briodol ar gyfer cyfweiliad cysylltiedig â gwaith iechyd a gofal cymdeithasol [DM2, DM3, CE2]	T1 arddangos sgiliau cyfweiliad priodol	Rh1 asesu cryfderau a gwendidau eu sgiliau cyfweiliad
LI3 cwblhau cyfnod o brofiad gwaith, gan ddefnyddio sgiliau perthnasol, mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol [DM2, DM3, GT1, GT3, GT4, GT5, HR5, HR6, HR7, CE2]	T2 trafod eu perfformiad cyffredinol yn ystod y cyfnod o brofiad gwaith	Rh2 cynhyrchu cynllun gweithredu yn dangos sut gallasant wella eu perfformiad yn ystod y brofiad gwaith.
LI4 arddangos sgiliau rhyngpersonol priodol mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol [DM2, DM3, GT1, GT3, GT4, GT5, HR5, HR6, HR7, CE2]	T3 trafod eu sgiliau rhyngpersonol eu hunain a ddefnyddiwyd mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol.	
LI5 cwblhau llyfr log myfyriol yn ystod eu cyfnod o brofiad gwaith mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol.		

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 6: Amrywiaeth Diwylliannol ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cod yr Uned:	F/600/6877
FfCCH Lefel 2 :	BTEC Cyntaf
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw cyflwyno'r dysgwyr i'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n ymwneud ag amrywiaeth diwylliannol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a hefyd datblygu eu dealltwriaeth o'i werth, a sut gellir ei ddefnyddio i helpu i hyrwyddo cyfle cyfartal i ddefnyddwyr gwasanaeth. Mewn cymdeithas amlddiwylliannol mae'n bwysig bod amrywiaeth yn cael ei gydnabod, ei ddeall a'i barchu gan y rhai sy'n gweithio yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol.

Cyflwyniad i'r uned

Lluniwyd yr uned hon i gyflwyno'r dysgwyr i amrywiaeth diwylliannol. Mae'r uned yn archwilio amrywiaeth unigolion mewn cymdeithas o amrywiaeth eang o gefndiroedd crefyddol/seciwlar gwahanol. Bydd y dysgwyr yn edrych ar wahanol grwpiau crefyddol/seciwlar, eu credoau a'u harferion. Byddant yn ymchwilio i'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ddarparwyr gwasanaethau mewn perthynas â hyn. Ymchwilir hefyd i ddeddfwriaeth, confensiynau, rheoliadau, codau ymarfer a siarteri cysylltiedig.

Mae hon yn uned arbenigol yn Nhystysgrif Gyntaf Lefel 2 BTEC Edexcel ac yn y Diploma Cyntaf mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'n baratoad defnyddiol ar gyfer gwaith yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, a hefyd ar gyfer dysgwyr sy'n bwriadu symud ymlaen i Ddiploma Cenedlaethol Lefel 3 BTEC Edexcel mewn Iechyd a/neu Ofal Cymdeithasol neu BTEC Cenedlaethol Lefel 3 Edexcel mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant.

Mae'r uned hon yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddatblygu a chymhwyso Sgiliau gweithredol Lefel 2 mewn Cymraeg/Saesneg a TGCh, a sgiliau personol, dysgu a meddwl.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Wybod am amrywiaeth unigolion mewn cymdeithas
- 2 Deall credoau ac arferion gwahanol grwpiau crefyddol neu seciwlar
- 3 Deall y ffactorau sy'n dylanwadu ar gyfle cyfartal i unigolion mewn cymdeithas
- 4 Gwybod am rôl deddfwriaeth, codau ymarfer a siarteri wrth hybu amrywiaeth.

Cynnwys yr Uned

1 Gwybod am amrywiaeth unigolion mewn cymdeithas

Amrywiaeth cymdeithasol, diwylliannol a gwleidyddol: mewn perthynas ag unigolion mewn cymdeithas, e.e. ethnigrwydd, credoau crefyddol, credoau seciwlar, dosbarth cymdeithasol, rhyw, rhywioldeb, oedran, strwythur y teulu, anableddau

2 Deall credoau ac arferion gwahanol grwpiau crefyddol neu seciwlar

Ystod o grwpiau crefyddol/seciwlar: dau o blith, e.e. Cristnogion, Hindŵiaid, anffyddwyr, Bwdhyddion, dyneiddwyr, Tystion Jehofah, Iddewon, Mwslimiaid, paganiaid, Rastaffariaid, Sikhiaid

Credoau ac arferion: sy'n perthyn i wahanol grwpiau crefyddol neu seciwlar, e.e. gwyliau a dyddiau sanctaidd, bwyd, gwisg, symbolau, dulliau o addoli, credoau iechyd/meddygol

3 Deall y ffactorau sy'n dylanwadu ar gyfle cyfartal i unigolion mewn cymdeithas

Ffactorau cymdeithasol, diwylliannol a gwleidyddol: dylanwadau, e.e. ethnigrwydd, credoau crefyddol, dosbarth cymdeithasol, rhyw, rhywioldeb, oedran, strwythur y teulu, anableddau

Arfer gwahaniaethol: rhagfarn; camwahaniaethu; stereoteipio; labelu

Effeithiau gwahaniaethu ar iechyd/lles unigolyn: corfforol; deallusol; emosiynol; cymdeithasol

Arfer nad yw'n gwahaniaethu: dylanwadau, e.e. cyfrifoldebau gweithwyr unigol, cyfrifoldebau sefydliadol, gweithio gyda chydweithwyr, gweithio gyda defnyddwyr gwasanaethau

Deunyddiau: cyfarpar; gweithgareddau; arddangosfeydd gweledol; teganau a llyfrau sy'n cyflwyno rhyw a hil mewn ffyrdd cadarnhaol; osgoi stereoteipio

Rôl y cyfryngau: llyfrau; taflenni; papurau newydd; cylchgronau; teledu; y rhyngwrwyd

4 **Gwybod am rôl deddfwriaeth, codau ymarfer a siarteri wrth hybu amrywiaeth**

Rolau ac effaith y confensiynau, y deddfwriaeth a'r rheoliadau canlynol (adrannau perthnasol): adrannau cyfredol a pherthnasol o, e.e. y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Rhyddid Sylfaenol, Deddf Iechyd Meddwl, Y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn, Deddf Plant, Deddf Cysylltiadau Hil (Diwygiwyd), Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, Deddf Hawliau Dynol, Deddf Diogelu Data, Rheoliadau Cartrefi Gofal Nyrsio a Phreswyl

Codau ymarfer a siarteri: adrannau perthnasol a chyfredol o, e.e. codau ymarfer y Cyngor Gofal Cymdeithasol Cyffredinol/Cyngor Gofal Cymru/Cyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol a chyflogwyr; siarteri; polisïau sefydliadol; gweithdrefnau a chodau ymarfer

Cyfrifoldebau: cyflogwyr; gweithwyr

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 nodi ffactorau cymdeithasol, diwylliannol a gwleidyddol sy'n creu amrywiaeth mewn cymdeithas [YA1, MC2, GT1, CE1, CE5]		
LI2 esbonio credoau ac arferion unigolion o ddau grŵp crefyddol neu seciwlar cyferbyniol [YA1, MC2, GT1, CE1, CE5]	T1 cymharu'r elfennau tebyg a'r gwahaniaethau yn arferion a chredoau unigolion o ddau grŵp crefyddol neu seciwlar cyferbyniol	
LI3 esbonio ffactorau a all ddylanwadu ar gyfle cyfartal i unigolion [MC2, DM1, DM5, HR3]	T2 trafod sut gellir osgoi arfer gwahaniaethol	Rh1 asesu effeithiau posib gwahaniaethu ar iechyd/lles corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol unigolion

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI4 amlinellu un darn o ddeddfwriaeth berthnasol ac un cod ymarfer neu siarter ar gyfer amgylchedd iechyd neu ofal cymdeithasol a ddewiswyd sy'n ceisio hybu amrywiaeth. [YA3, MC2, YA4, DM1, DM5, HR3, CE1, CE5]	T3 disgrifio sut mae'r ddeddfwriaeth a'r cod ymarfer neu'r siarter yn hybu amrywiaeth.	Rh2 asesu effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth a ddewiswyd a'r cod ymarfer neu'r siarter o ran hybu amrywiaeth.
LI5 cyfleu bwriadau i'r gynulleidfa gyda pheth llwyddiant [CE]	T5 cyfleu bwriadau yn effeithiol i gynulleidfa	Rh5 cyfleu bwriadau i gynulleidfa gydag eglurder

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnodu, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 7: Anatomeg a Ffisioleg ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cod yr Uned:	F/600/6880
FfCCH Lefel 2 :	BTEC Cyntaf
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw cyflwyno'r dysgwyr i brif strwythurau'r corff ac edrych yn fanylach ar ddwy o systemau'r corff. Bydd y dysgwyr yn ymarfer cymryd mesuriadau cyffredin ac arsylwi'r ddwy system, ac yn archwilio effeithiau anhwylder cyffredin yn y ddwy system.

Cyflwyniad i'r uned

Lluniwyd yr uned i alluogi dysgwyr sydd am weithio yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae'r corff yn gweithio, y systemau o fewn y corff, a'r prosesau sy'n angenrheidiol i'n cadw'n fyw. Bydd yr wybodaeth hon yn eu helpu i ddeall y gweithdrefnau arferol ac anarferol sy'n digwydd mewn amgylcheddau iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys monitro systemau'r corff trwy gofnodi, er enghraifft, tymheredd, cyfradd curiad y galon a phwysedd gwaed. Bydd yr uned yn datblygu dealltwriaeth o'r gweithdrefnau hyn, y rhesymau am eu cyflawni, a phwysigrwydd cywirdeb.

Mae'r uned hon yn cyflwyno'r dysgwyr i drefniadaeth y corff dynol a phrif systemau'r corff. Bydd y dysgwyr yn archwilio strwythur a swyddogaeth dwy o systemau'r corff yn fanylach. Mae hefyd yn cyflwyno cysyniad homeostasis a'r ffaith nad yw systemau'r corff yn gweithredu'n ynysig, ond yn hytrach yn cydweithio i gynnal y corff yn ei gryswth, gyda iechyd yr unigolyn yn dibynnu ar hynny. Mae'r uned yn caniatáu i ddysgwyr archwilio sut a pham mae arsylwadau a mesuriadau cyffredin yn cael eu cyflawni ar gleifion/defnyddwyr gwasanaeth mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Cyflwynir cysyniadau peryglon a risg, a phwysigrwydd cynnal iechyd a diogelwch. Yn olaf, ymchwilir i gamweithrediad posib systemau'r corff, a chymhwysir dealltwriaeth o'r rhain i archwilio'r gofal dilynol mae cleifion/defnyddwyr gwasanaeth yn ei dderbyn pan aiff rhywbeth o'i le.

Mae hon yn uned arbenigol yn Nhystysgrif GCyntaf Lefel 2 BTEC Edexcel, y Dystysgrif Estynedig a'r Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Fodd bynnag, argymhellir, os yw canolfannau yn llunio rhaglenni astudio i gynnal dysgwyr sydd yn bwriadu symud ymlaen i Ddiploma Cenedlaethol Lefel 3 BTEC Edexcel mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y dylent gynnwys yr uned hon, er mwyn paratoi'r dysgwyr ar gyfer astudiaeth bellach o'r corff dynol.

Mae'r uned hon yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddatblygu a chymhwyso Sgiliau gweithredol Lefel 2 mewn Cymraeg/Saesneg a TGCh, a sgiliau personol, dysgu a meddwl.

Canlyniadau dysgu

Wedi cwblhau'r uned hon dylai dysgwyr:

- 1 Ddeall trefniadaeth y corff dynol
- 2 Deall strwythur a swyddogaeth prif systemau'r corff a'r berthynas rhyngddynt
- 3 Gallu cyflawni mesuriadau cyffredin ac arsylwadau systemau'r corff
- 4 Gwybod am effeithiau camweithrediad ar systemau'r corff
- 5 Gwybod am y gofal a roddir fel mater o drefn i unigolion y mae eu cyrff yn camweithredu.

Cynnwys yr Uned

1 Deall trefniadaeth y corff dynol

Trefniadaeth: celloedd; meinweoedd; organau; systemau

Lleoliad organau yn y corff: y croen; y galon; yr ysgyfaint; yr ymennydd; y llygad, y glust; y stumog, y pancreas, y coluddion, yr afu; yr arenau, y bledren; yr ofariau/yr hadgrwyn, yr wterws

2 Deall strwythur a swyddogaeth prif systemau'r corff a'r berthynas rhyngddynt

Systemau: cardiofasgwlaidd; resbiradol; nerfol; endocrin; treuliol; ysgarthol; atgynhyrchiol; cyhyr-ysgerbydol

Swyddogaethau'r corff: cynnal y cyflenwad ocsigen, cydsymud; treulio deunyddiau bwyd; cludo a chyflenwi deunyddiau i gelloedd; dileu cynnyrch gwastraff; cynhaliaeth ac ymsymudiad; derbyn gwybodaeth o'r amgylchedd; atgenhedlu

Rhyngberthnasoedd: homeostasis, e.e. cynnal tymheredd y corff; pwysedd gwaed, cyflenwad ocsigen; lefelau glwcos y gwaed

3 Gallu cyflawni mesuriadau cyffredin ac arsylwadau systemau'r corff

Arsylwadau: fel sy'n briodol ar gyfer system y corff, e.e. lliw a gwead y croen, tystiolaeth o chwys, tymheredd wrth gyffwrdd; rhythm yr anadlu a'r nodweddion cysylltiedig, e.e. gwichian; ymddygiad arall, e.e. syched, pesychu

Mesuriadau ffisiolegol cyffredin: cyfradd curiad y galon; pwysedd gwaed; cyflymder anadlu; briglif; tymheredd y corff; lefelau glwcos y gwaed

Ystyriaethau iechyd, diogelwch a chywirdeb: wrth gymryd mesuriadau, e.e. cywirdeb cyfarpar; dyblygu darlleniadau; diogelwch a lles yr unigolyn yn ystod y mesuriadau; rheoli haint

4 Gwybod am effeithiau camweithrediad ar systemau'r corff

Camweithrediadau: fel sy'n berthnasol i system y corff, e.e. trawiad ar y galon, strôc, pwysedd gwaed uchel, asthma, emffysema, bronchitis cronig, diabetes, clefyd Crohn, methiant yr arenau, osteoarthritis, clefyd Parkinson, parlys ymledol

Risg posib: ffactorau, e.e. ffordd o fyw, amgylchedd, etifeddol, oedran

5 Gwybod am y gofal a roddir fel mater o drefn i unigolion y mae eu cyrff yn camweithredu

Gofal cyffredin: monitro systemau'r corff: fel sy'n briodol ar gyfer dau gamweithrediad a system, e.e. newidiadau ffordd o fyw; defnydd o gymhorthion; cymorth ar gyfer meddyginiaeth a hunan-weinyddir, e.e. anadlyddion, ar gyfer diabetes; monitro; amgylchedd priodol, e.e. tymheredd; cynnal symudedd; rheoli risgiau, e.e. yn sgil haint, cwmpo

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 nodi trefniadaeth y corff dynol a safle prif organau'r corff [YA2, YA3, MC1, HR2, HR3, HR5]		
LI2 dangos strwythur a swyddogaeth dau o brif systemau'r corff a'r berthynas rhyngddynt [YA2, YA3, MC1, HR2, HR3, HR5]	T1 trafod, yn achos pob system, sut mae ei strwythur yn ei helpu i gyflawni ei swyddogaethau	Rh1 esbonio'r berthynas rhwng systemau er mwyn cynnal homeostasis
LI3 cyflawni mesuriadau ac arsylwadau cyffredin a ddefnyddir i fonitro'r ddwy system yn y corff [YA2, YA3, DM2, DM4, GT4, GT5, HR2, HR3, HR5]		
LI4 amlinellu camweithrediad cyffredin yn y naill a'r llall o'r systemau yn y corff [YA2, YA3, DM2, DM4, GT4, GT5, HR2, HR3, HR5]	T2 disgrifio sut gallai presenoldeb camweithrediad effeithio ar fesuriadau ac arsylwadau cyffredin ar y ddwy system yn y corff	

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwyr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwyr yn gallu:
LI5 nodi ffactorau risg posib ar gyfer pob un o'r ddau gamweithrediad [YA2, YA3, MC1, HR2, HR3, HR5]		
LI6 nodi'r gofal a roddir fel mater o drefn ar gyfer y ddau gamweithrediad. [YA2, YA3, DM2, DM3, GT1, GT2, GT4, GT5, GT6, HR2, HR3, HR5, CE1, CE4, CE5]	T3 disgrifio'r gofal a roddir fel mater o drefn ar gyfer pob camweithrediad.	Rh2 esbonio sut mae'r gofal a roddir fel mater o drefn ar gyfer pob camweithrediad yn effeithio ar systemau'r corff.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnodu, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 8: Datblygiad Hyd Oes Dynol

Cod yr Uned:	R/600/6883
FfCCH Lefel 2 :	BTEC Cyntaf
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi'r dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o wahanol agweddau ar dwf a datblygiad dynol ar draws prif gyfnodau bywyd. Gall y dysgwyr archwilio rhai o'r gwahanol ddylanwadau cadarnhaol a negyddol a all effeithio ar ddatblygiad. Bydd hynny yn eu helpu i ddeall a gallu gweithio yn fwy effeithiol gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Cyflwyniad i'r uned

Mae gwybodaeth am ddatblygiad ar hyd cyfnodau bywyd yn bwysig i ddysgwyr sy'n ystyried gyrfa ym maes iechyd a gofal cymdeithasol oherwydd y bydd yn helpu eu dealltwriaeth o anghenion amrywiol unigolion. Bydd yn ehangu eu persbectif o'r gwahanol ddylanwadau ar ddatblygiad unigolyn a'r berthynas rhwng hynny ac anghenion gofal pobl sy'n defnyddio gwasanaethau. Dylid annog dysgwyr i fyfyrwr wrth astudio'r pwnc hwn a chreu cysylltiad rhwng astudiaethau damcaniaethol a'u profiadau bywyd eu hunain.

Mae'r uned hon yn darparu trosolwg cyffredinol o dwf a datblygiad dynol ac yn archwilio rhai agweddau gwahanol ar ddatblygiad corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol sydd yn digwydd ar draws prif gyfnodau bywyd. Mae hefyd yn annog y dysgwyr i ystyried rhai o'r dylanwadau cadarnhaol a negyddol ar dwf a datblygiad dynol, ac effaith bosib y rhain ar ddatblygiad hunan-gysyniad unigolyn. Dylai dysgwyr fedru rhoi ystyriaeth i'r ffactorau hyn wrth ystyried anghenion gofal newidiol unigolyn yng ngwahanol gyfnodau bywyd. Mae'r uned yn rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr gymhwyso eu gwybodaeth mewn sefyllfaoedd gofalu ymarferol, a dylid annog hynny lle bynnag y bo modd.

Argymhellir yr uned arbenigol hon yn gryf ar gyfer dysgwyr sydd yn bwriadu mynd ymlaen i astudio iechyd a gofal cymdeithasol ar Lefel 3.

Mae'r uned hon yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddatblygu a chymhwyso Sgiliau gweithredol Lefel 2 mewn Cymraeg/Saesneg a TGCh, a sgiliau personol, dysgu a meddwl.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Wybod am newidiadau datblygiadol sydd yn digwydd yng ngwahanol gyfnodau bywyd
- 2 Gwybod am ddylanwadau cadarnhaol a negyddol ar unigolion yng ngwahanol gyfnodau bywyd
- 3 Gwybod am y ffactorau a all ddylanwadu ar hunan-gysyniad unigolyn
- 4 Deall gwahanol anghenion gofal unigolion yng ngwahanol gyfnodau bywyd.

Cynnwys yr Uned

1 Gwybod am newidiadau datblygiadol sydd yn digwydd yng ngwahanol gyfnodau bywyd

Cyfnodau bywyd: cenhedlu, genedigaeth a babandod (0–3 oed); plentyndod (4–10 oed); llencyndod (11–18 oed); oedolaeth (19–65 oed); henaint (65+)

Agweddau allweddol ar ddatblygiad: corfforol, e.e. twf, newidiadau glasod, diwedd y mislif, heneiddio; deallusol - gydol oes; dysgu cyflym yn y blynyddoedd cynnar (iaith, datblygiad moesol, datrys problemau); effeithiau posib ar bobl hŷn; emosiynol, e.e. ymlyniad, creu cwlwm; annibyniaeth, hunanhyder; cymdeithasol/diwylliannol, e.e. cydweithrediad; gwaith tîm; perthnasoedd; credoau; normau

2 Gwybod am ddylanwadau cadarnhaol a negyddol ar unigolion yng ngwahanol gyfnodau bywyd

Ffactorau sosio-economaidd: dylanwadau, e.e. incwm, gwariant, tai, yr amgylchedd, teulu, ffrindiau, pwysau cyfoedion, y cyfryngau, diwylliant, rhyw, camwahaniaethu, addysg, mynediad i wasanaethau

Digwyddiadau bywyd: rhagweladwy/anrhagweladwy, e.e. genedigaeth, geni brawd neu chwaer, mynd i feithrinfa/i'r ysgol, symud tŷ, cyflogaeth, diswyddo, anaf difrifol, priodi, ysgaru, dod yn rhiant, ymddeol, heneiddio, profedigaeth, camdriniaeth

3 Gwybod am y ffactorau a all ddylanwadu ar hunan-gysyniad unigolyn

Hunan-gysyniad: hunandelwedd; hunan-barch; ffactorau sy'n dylanwadu ar hunan-gysyniad, e.e. oedran, golwg, rhyw, diwylliant, perthnasoedd, camdriniaeth, teulu, incwm, y cyfryngau, addysg, iechyd a lles emosiynol, cymdeithasoli, amgylchedd

4 Deall gwahanol anghenion gofal unigolion yng ngwahanol gyfnodau bywyd

Materion yn ymwneud â chyfnodau bywyd: anghenion gofal newidiol yng ngwahanol gyfnodau bywyd; nodi asesu a chynllunio gofal

Darparu ar gyfer gofal: ystyriaethau, e.e. cydnabod amrywiaeth, cefnogaeth weithredol, hybu annibyniaeth, hybu dewis, trin unigolion â pharch ac urddas, diogelu, gwaith timau amlddisgyblaeth, darparu gofal ffurfiol ac anffurfiol

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 nodi agweddau allweddol ar ddatblygiad corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol ym mhob un o gyfnodau bywyd [YA1, HR2, HR3]	T1 amlinellu agweddau allweddol ar ddatblygiad corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol ym mhob un o gyfnodau bywyd	
LI2 nodi'r dylanwadau cadarnhaol a negyddol ar dwf a datblygiad [YA3, YA5, HR2, HR3]		
LI3 nodi'r ffactorau sy'n dylanwadu ar hunan-gysyniad unigolyn [YA3, YA5, MC4, HR2, HR3]	T2 amlinellu sut gall ffactorau ddylanwadu ar ddatblygiad hunan-gysyniad unigolyn	Rh1 disgrifio sut gall ffactorau ddylanwadu ar ddatblygiad hunan-gysyniad unigolyn
LI4 esbonio newidiadau posib yn anghenion gofal unigolion yng ngwahanol gyfnodau bywyd. [MC1, MC2, HR2, HR3]	T3 trafod gwahaniaethau posib yn anghenion gofal unigolion yng ngwahanol gyfnodau bywyd.	Rh2 cyfiawnhau'r gofal a roddir i unigolyn yng ngwahanol gyfnodau bywyd.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 9: Gweithgareddau Creadigol a Therapiwtig ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cod yr Uned:	D/600/6885
FfCC Lefel 2:	BTEC Cyntaf
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi dysgwyr i ddatblygu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau hanfodol i fedru cynllunio a chyflawni gweithgareddau creadigol a therapiwtig mewn amgylchedd iechyd neu ofal cymdeithasol. Bydd y dysgwyr yn ymchwilio i ddeddfwriaeth a rheoliadau sy'n berthnasol i weithredu gweithgareddau creadigol a therapiwtig, ac yn deall rôl y gweithiwr proffesiynol wrth gefnogi unigolion sy'n ymgymryd â hwy. Bydd y dysgwyr hefyd yn cael cyfle i gynllunio gweithgareddau creadigol a therapiwtig a'u rhoi ar waith.

Cyflwyniad i'r uned

Mae deall manteision gweithgareddau creadigol a therapiwtig yn bwysig i bawb sy'n gweithio, neu sydd am gael gyrfa, ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Rhaid i ddysgwyr werthfawrogi'r ystod o wybodaeth, sgiliau a nodweddion personol y mae eu hangen ar weithwyr proffesiynol, er mwyn sicrhau bod gweithgareddau a gynlluniwyd yn cael eu rhoi ar waith yn ddiogel ac yn diwallu anghenion unigol y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau. Bydd dysgwyr hefyd yn ystyried pwysigrwydd bod yn ymatebol i ddiddordebau a dymuniadau'r unigolyn wrth gynllunio gweithgareddau.

Mae hon yn uned arbenigol yn Niploma Cyntaf Lefel 2 BTEC Edexcel mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ond gallai fod yn gyflwyniad i ddysgwyr sy'n ystyried gyrfaoedd megis therapi galwedigaethol, gwaith chwarae neu therapi chwarae mewn ysbyty.

Mae ganddi gysylltiadau agos ag Uned 5: Profiad Galwedigaethol mewn Lleoliad Iechyd neu Ofal Cymdeithasol, gan fod rhaid i ddysgwyr ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau trwy roi eu cynlluniau ar waith mewn amgylchedd iechyd neu ofal cymdeithasol. Bydd *Uned 4: Sicrhau Amgylcheddau Diogel ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol* ac *Uned 2: Anghenion yr Unigolyn yn y Sectorau Iechyd a Gofal Cymdeithasol* yn darparu sylfaen dda o wybodaeth a dealltwriaeth, gan helpu'r dysgwyr i gadarnhau eu dysgu wrth gynllunio gweithgareddau a'u rhoi ar waith i ddiwallu anghenion a diddordebau grwpiau neu unigolion.

Cyflwynir y dysgwyr i'r ystod o weithgareddau creadigol a therapiwtig sydd yn briodol i unigolion ar draws y gwahanol ystodau oedran, a gwahanol anghenion. Ânt ymlaen i archwilio manteision cyfannol gweithgareddau creadigol a therapiwtig, a rôl y gweithiwr proffesiynol wrth sicrhau bod gweithgareddau yn briodol ac yn ddiogel. Bydd dysgwyr yn medru tynnu ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth er mwyn cynllunio a chyflawni gweithgaredd mewn amgylchedd iechyd neu ofal cymdeithasol.

Mae'r uned hon yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddatblygu a chymhwyso Sgiliau gweithredol Lefel 2 mewn Cymraeg/Saesneg a TGCh, a sgiliau personol, dysgu a meddwl.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Wybod am wahanol weithgareddau creadigol a therapiwtig a'u manteision
- 2 Gwybod am ddeddfwriaeth a rheoliadau sy'n berthnasol i roi gweithgareddau creadigol a therapiwtig ar waith
- 3 Deall rôl gweithwyr proffesiynol wrth gefnogi unigolion sy'n ymgymryd â gweithgareddau creadigol a therapiwtig
- 4 Gallu rhoi gweithgareddau creadigol a therapiwtig priodol ar waith.

Cynnwys yr Uned

1 Gwybod am wahanol weithgareddau creadigol a therapiwtig a'u manteision

Gweithgareddau creadigol a therapiwtig: a ddefnyddir mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, e.e. celf fynegiannol, crefft, ffotograffiaeth, garddio, cerddoriaeth, dawn, symud, drama, coginio, ymarfer corff, gemau, chwaraeon, nofio, marchogaeth, cwisiau, TGCh, ioga, tylino, symbyliad amlsynhwyrdd, therapi anifeiliaid

Lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol: cyn-ysgol; gofal dydd; gofal preswyl; gofal cartref; grwpiau cymunedol; byw'n annibynnol; ysbytai

Manteision corfforol: cynnal a/neu wella symudiad, cryfder, cydsymud, hyfedredd, cydweithrediad llaw a llygad; lleihau symptomau

Budd gwybyddol: cof; datrys problemau; cyfathrebu; trefniadaeth

Manteision emosiynol: symbyliad; hunan-gysyniad; datblygu diddordebau newydd

Manteision cymdeithasol: rhyngweithio gydag eraill; datblygu perthnasoedd a rhwydweithiau cymdeithasol

2 Gwybod am ddeddfwriaeth a rheoliadau sy'n berthnasol i roi gweithgareddau creadigol a therapiwtig ar waith

Deddfwriaeth, rheoliadau, codau ymarfer: adrannau perthnasol o'r ddeddfwriaeth briodol, e.e. Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, Deddf Safonau Bwyd 1999, Rheoliadau Bwyd Cyffredinol 2004, Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chario 1992, Rheoliadau Rheoli Sylweddau sy'n Peryglu Iechyd, 2002 (COSHH), Rheoliadau Adrodd am Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus 1995 (RIDDOR), polisiau sefydliadol a chodau ymarfer

3 Deall rôl gweithwyr proffesiynol wrth gefnogi unigolion sy'n ymgymryd â gweithgareddau creadigol a therapiwtig

Egwyddorion a gwerthoedd: arfer gwrth-wahaniaethol; cyfle cyfartal; grymuso; sicrhau urddas, hybu annibyniaeth; cyfrinachedd; parchu amrywiaeth, diwylliant, credoau

Cefnogi cynhwysiad: datblygu cyfeillgarwch; dulliau cyfathrebu; annog profiadau newydd

Gweithgareddau cefnogol: symbylu; cynnal mwynhad; cynnig cymorth ymarferol; darparu adnoddau; bod ar gael; iechyd; diogelwch; diogeledd

4 Gallu rhoi gweithgareddau creadigol a therapiwtig priodol ar waith

Ffactorau sy'n effeithio ar y dewis o weithgareddau: e.e. budd posibil, diddordebau, dewisiadau, oedran, gallu, gallu corfforol, gallu deallusol, sgiliau cyfathrebu, diwylliant, rhyw

Anghenion yr unigolyn: e.e. corfforol, synhwyraidd, ynysu cymdeithasol, anabledd dysgu, iselder, datblygiadol, cyfathrebu

Cynllunio gweithgareddau creadigol a therapiwtig: anghenion yr unigolyn; amseru; adnoddau, e.e. deunyddiau, cyfarpar; lle/lleoliad; rhwystrau; iechyd a diogelwch

Adnoddau: e.e. deunyddiau celf a chreffft, gemau, cerddoriaeth; cyfarpar, e.e. camerâu digidol, cyfarpar recordio, cyfrifiadur, cynwysyddion coginio, cyfarpar garddio

Adnoddau arbenigol: e.e. gemau, cardiau, testunau print bras, siswrn neu offer hawdd gafael ynddynt, llyfrau sy'n siarad, teclynnau gafael, matiau gwrthlithro, pad neu sgriniau cyffwrdd i gyfrifiadur

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 nodi gweithgareddau creadigol a therapiwtig ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol [YA3, GT1, HR3]		
LI2 nodi manteision gweithgareddau creadigol a therapiwtig ar gyfer unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol [YA3, GT1, HR3]	T1 amlinellu manteision gweithgareddau creadigol a therapiwtig ar gyfer unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol	
LI3 nodi deddfwriaeth, canllawiau a pholisïau sy'n berthnasol i roi gweithgareddau creadigol a therapiwtig ar waith [YA2, HR3]	T2 amlinellu deddfwriaeth, canllawiau a pholisïau sy'n berthnasol i roi gweithgareddau creadigol a therapiwtig ar waith	Rh1 disgrifio pwysigrwydd deddfwriaeth, canllawiau a pholisïau sy'n berthnasol i roi gweithgareddau creadigol a therapiwtig ar waith
LI4 esbonio rôl y gweithiwr proffesiynol wrth gynllunio gweithgareddau creadigol a therapiwtig mewn amgylchedd iechyd a gofal cymdeithasol [YA2, YA3, HR3]		

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI5 cynllunio gweithgaredd creadigol neu therapiwtig ar gyfer unigolyn sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol. [YA2, MC1, MC4, DM4, HR3, CE3]	T3 cynnal gweithgaredd creadigol neu therapiwtig wedi ei gynllunio mewn amgylchedd iechyd neu ofal cymdeithasol.	Rh2 cyflwyno gwerthusiad o effeithiolrwydd y gweithgaredd a gynlluniwyd gennyh i ddiwallu anghenion cyfannol yr unigolyn

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 10: Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cod yr Uned: H/600/6886

FfCC Lefel 2: BTEC Cyntaf

Gwerth credydau: 10

Oriau dysgu dan arweiniad: 60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi dysgwyr i gaffael gwybodaeth a dealltwriaeth o sut darperir gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a chael cipolwg ar bolisiau'r llywodraeth sy'n darparu sylfaen ar gyfer cyflenwi gwasanaethau. Bydd y dysgwyr hefyd yn archwilio gofynion rolau swyddi yn y sector.

Cyflwyniad i'r uned

Mae'r uned hon yn galluogi'r dysgwyr i ddeall y rhesymeg y tu ôl i bartneriaethau a mentrau cyfredol y llywodraeth ar draws sectorau, a natur waelodol gwaith amlddisgyblaeth/rhyngasiantaeth.

Mae'r uned yn rhoi cipolwg ar y rhwystrau mae rhai grwpiau o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn eu hwynebu, a'r egwyddorion partneriaeth sy'n ofynnol i'w goresgyn. Bydd yr uned hon yn helpu i baratoi dysgwyr sydd yn dymuno symud ymlaen i Ddiplomau Cenedlaethol Lefel 3 BTEC Edexcel mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (llwybrau Iechyd a Gofal Cymdeithasol) a hefyd y dysgwyr y mae'n well ganddynt ymuno â'r gweithlu ar ôl cwblhau'r cymhwyster.

Mae cysylltiad rhwng yr uned hon ac *Uned 2: Hawliau'r Unigolyn ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol*, *Uned 3: Anghenion yr unigolyn ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol*, *Uned 5: Profiad Galwedigaethol mewn Lleoliad Iechyd neu Ofal Cymdeithasol* ac *Uned 6: Amrywiaeth Diwylliannol ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol*.

Mae'r uned hon yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddatblygu a chymhwyso Sgiliau gweithredol Lefel 2 mewn Cymraeg/Saesneg a TGCh, a sgiliau personol, dysgu a meddwl.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Wybod am elfennau allweddol o'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol
- 2 Gwybod am y rhwystrau sy'n atal mynediad i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol
- 3 Deall egwyddorion partneriaeth ym maes iechyd a gofal cymdeithasol
- 4 Deall y gofynion o ran rolau swyddi ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Cynnwys yr Uned

1 Gwybod am elfennau allweddol o'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol

Darpariaeth: statudol, gwirfoddol, preifat, anffurfiol; gwasanaethau cymdeithasol, y GIG; Awdurdodau Iechyd Strategol; Ymddiriedolaethau Gofal Cychwynnol; Ymddiriedolaethau GIG; gofal iechyd cychwynnol; gofal iechyd eilaidd; gofal iechyd trydyddol; ymddiriedolaethau iechyd meddwl; ymddiriedolaethau plant

Lleoliadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol: elfennau allweddol mewn, e.e. ysbytai, hosbisau, trefniadau maethu, cartrefi preswyl, canolfannau dydd, Cychwyn Cadarn, cymorth cartref; sut mae gwahanol leoliadau yn darparu cymorth gwahanol yn ôl yr angen

2 Gwybod am y rhwystrau sy'n atal mynediad i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol

Rhwystrau: ariannol; lleoliad daearyddol; anabledd; ethnigrwydd; diwylliant; dewisiadau'r unigolyn; dosbarth cymdeithasol

3 Deall egwyddorion partneriaeth ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

Enghreifftiau: gwaith amlddisgyblaeth/rhyngasiantaeth; fforymau defnyddwyr gwasanaethau; cyswllt â'r sector gwirfoddol a statudol; agenda integredig i'r gweithlu

Dibenion: dull cyfannol; canfod nodau cyffredin; hybu integreiddio; lleihau dyblygu; crynhoi adnoddau; mwyafu arbenigedd; sicrhau dull cyson

4 Deall y gofynion o ran rolau swyddi ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

Rolau swyddi: gofynion ar gyfer, e.e. nyrs, nyrs iechyd meddwl, bydwaig, ymwelydd iechyd, cynorthwydd nyrsio, meddyg, deintydd, optegydd, fferyllydd, deietegydd, parafeddyg, gweithiwr chwarae mewn ysbyty, therapydd galwedigaethol, ffisiotherapydd, technegydd labordy meddygol, croesawydd meddygol, glanhawr, porthor, gweithiwr cymdeithasol, rheolwr cartref preswyl, cynorthwydd gofal, gweithwyr cymunedol, staff prydau ar glud, gweithiwr cynnal teuluoedd, gweithiwr ieuencid cynorthwyol, cwnsler, gwarchodwr plant, gweinyddes feithrin, nani, rhiant maeth, ymarferydd adran lawdriniaethau

Sgiliau gofal: egwyddorion arfer gofal da; cymorth gweithredol; sgiliau rhyngpersonol; diwallu anghenion sylfaenol; cynnal hylendid personol a symudedd

Gofynion: nodweddion personol, e.e. golwg/gwisg, agwedd, hyder, prydlondeb, empathi, gallu i weithio gydag eraill; gallu; cymwysterau; cofrestru

Datblygu'r gweithlu: gofynion a rheoliadau Cyngorau Sgiliau Sector; sefydlu; datblygiad proffesiynol parhaus (DPP); trawsnewid; Safonau Cenedlaethol Galwedigaethol; monitro perfformiad

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 nodi elfennau allweddol o'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol [YA2, DM5, GT1, HR2, CE2]		
LI2 nodi'r prif rwystrau sy'n atal mynediad i iechyd a gofal cymdeithasol [YA1, MC1, DM5, HR2, CE2]	T1 disgrifio sut gellir goresgyn rhwystrau sy'n atal mynediad i iechyd a gofal cymdeithasol	
LI3 esbonio manteision partneriaethau rhyngasiantaeth [MC1, MC3, MC4, MC5, DM5, HR2, CE2]	T2 trafod sut mae asiantaethau yn cydweithio er budd i unigolion	Rh1 asesu ffactorau a allai atal y sefydliadau hyn rhag cydweithio
LI4 esbonio'r sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer dwy rôl swydd wahanol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. [MC3, MC4, MC5, DM5, HR2, CE2]	T3 cymharu gofynion sgiliau y ddwy rôl swydd wahanol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.	Rh2 asesu gweithgareddau posib o ran datblygu'r gweithlu yn achos rolau'r ddwy swydd.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnoddi, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 11: Effaith Deiet ar Iechyd

Cod yr Uned:	M/600/6888
FfCC Lefel 2:	BTEC Cyntaf
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi'r dysgwyr i gaffael gwybodaeth a dealltwriaeth o ddeiet a'i effaith ar iechyd. Bydd dysgwyr yn gallu archwilio pwysigrwydd deiet cytbwys, effeithiau deiet ar iechyd, anghenion deietegol unigolion a diogelwch bwyd a hylendid.

Cyflwyniad i'r uned

Lluniwyd yr uned hon i gyflwyno'r dysgwyr i ddeiet a'i effaith ar iechyd. Mae'r pwnc hwn yn derbyn sylw yn aml yn y cyfryngau, er enghraifft rhaglenni teledu am fod yn rhy denau neu'n ordew, a chylchgronau yn sôn am brofiadau bywyd go iawn o effeithiau deiet gwael a/neu safonau hylendid bwyd a diogelwch gwael ar iechyd. I gychwyn bydd y dysgwyr yn ystyried anghenion deietegol unigolion yng ngwahanol gyfnodau bywyd, gan gynnwys cyfnodau megis beichiogrwydd a bwydo ar y fron. Ystyrir cydrannau deiet cytbwys, a hefyd edrychir ar effeithiau deiet anghytwys ar unigolion. Bydd y dysgwyr yn canolbwyntio ar anghenion deietegol dau ddefnyddiwr gwasanaeth sydd â gwahanol gyflyrau meddygol, ac yn cynhyrchu cynllun deiet dau ddiwrnod i ddiwallu anghenion yr unigolion hyn. Edrychir hefyd ar faes pwysig diogelwch bwyd a hylendid.

Mae hon yn uned arbenigol yn Nhystysgrif Gyntaf Lefel 2 BTEC Edexcel ac yn y Diploma Cyntaf mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Bydd yn baratoad defnyddiol ar gyfer gwaith yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, a hefyd ar gyfer dysgwyr sy'n bwriadu symud ymlaen i Ddiploma Cenedlaethol Lefel 3 BTEC Edexcel mewn Iechyd a/neu Ofal Cymdeithasol neu'r BTEC Cenedlaethol mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant.

Mae'r uned hon yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddatblygu a chymhwyso Sgiliau gweithredol Lefel 2 mewn Cymraeg/Saesneg a TGCh, a hefyd sgiliau personol, dysgu a meddwl.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Wybod am anghenion deietegol unigolion yng ngwahanol gyfnodau bywyd
- 2 Deall effeithiau deiet anghytwys ar iechyd unigolion
- 3 Gwybod am anghenion deietegol penodol defnyddwyr gwasanaeth
- 4 Deall egwyddorion diogelwch bwyd a hylendid.

Cynnwys yr Uned

1 Gwybod am anghenion deietegol unigolion yng ngwahanol gyfnodau bywyd

Cyfnodau bywyd: babandod (0-3 oed); plentyndod (4-10 oed); llencyndod (11-18 oed); oedolaeth (19-65 oed), yn cynnwys beichiogrwydd a bwydo ar y fron; henaint (65+ oed)

Cysyniad deiet cytbwys: cymeriant; anghenion; cydbwysedd ynni; gwerthoedd cyfeirnod deietegol; diffygion o ran maetholynnau; camfaethiad

Cydbwysedd ieched da: dograu cymharol o bum grŵp o fwydydd: cig, pysgod a dewisiadau amgen; llaeth a chynnyrch llaeth; ffrwythau a llysiau; bwydydd sy'n cynnwys braster/siwgr; bara, grawnfwydydd eraill a thatws

Cydrannau deiet cytbwys: carbohydradau, proteinau, braster ac olew; fitaminau; mwynau; swyddogaeth mewn deiet; amrywiadau o ran yr angen yn ôl, e.e. oedran, lefelau gweithgaredd, ffordd o fyw

Carbohydradau: syml (siwgrau), cymhleth (polysacaridau starts a di-starts (ffibr))

Proteinau: ffynonellau anifeiliaid a phlanhigion, asidau amino hanfodol; pwysigrwydd deiet amrywiol ar gyfer llysiuwyrr/feganiaid

Braster ac olew: braster anifeiliaid, olew llysiau, olew pysgod; dirlawn, annirlawn ac amlannirlawn

Fitaminau: A; B (cymhleth); C; D; E a K

Mwynau: calsiwm; haearn; sodiwm

Amrywiad deiet yn ystod datblygiad cyfnodau bywyd: babanod; plant a phobl ifanc; oedolion

Babanod: bwydo ar y fron, bwydo â fformwla, diddyfnu

Plant a phobl ifanc: i gynnal twf ac anghenion uwch o ran ynni; rheoli pwysau

Oedolion: lefelau gweithgaredd e.e. amrywiadau yn ôl galwedigaeth, ffordd o fyw; gostyngiad yn yr anghenion ynni; rheoli pwysau; beichiogrwydd a bwydo ar y fron

Ffactorau sy'n dylanwadu ar ddeiet unigolion: enghreifftiau crefydd/diwylliant, dosbarth cymdeithasol, dewisiadau personol, pwysau cyfoedion, y cyfryngau, statws yn y teulu, lleoliad daearyddol, argaeledd bwyd ac adnoddau ariannol

2 Deall effeithiau deiet anghybwys ar ieched unigolion

Cyflyrau meddygol cysylltiedig â deiet anghybwys: camfaethiad; gorfaethiad, e.e. clefyd coronaidd y galon, gordewdra, diabetes Math 2; tanfaethiad, e.e. cwashiorcor, marasmws; diffygion penodol o ran maetholion, e.e. anaemia, y llechau, pydredd dannedd, dallineb nos, beriberi, y llwg

3 **Gwybod am anghenion deietegol penodol defnyddwyr gwasanaeth**

Cyflyrau sydd â gofynion deietegol penodol: e.e. clefyd coronaidd y galon, gordewdra, diabetes math 2, anoddefedd lactos, anoddefedd glwten/gwenith, alergeddau bwyd, anhwylderau genetig, e.e. ffenylcetonwria

Crefydd/diwylliant: e.e. Hindwïaid, Iddewon, Mwslimiaid, Bwdhyddion, llysieuwyr, feganiaid

Cynllun dau ddiwrnod: brecwast; pryd canol dydd; pryd gyda'r hwyr; byrbrydau; diodydd

4 **Deall egwyddorion diogelwch bwyd a hylendid**

Arferion diogel o ran paratoi, coginio a gweini bwyd: rheoli hylendid; rheoli tymheredd; rheoli plâu

Effeithiau arferion anniogel: mathau o lygru bwyd e.e. cemegol, ffisegol, biolegol; bwyd bacteriaidd

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 nodi cydrannau deiet cytbwys [YA4, YA5, MC1, MC2, DM1, GT1, HR2, HR3]	T1 trafod sut mae cydrannau deiet cytbwys yn cyfrannu at iechyd unigolyn yng ngwahanol gyfnodau bywyd	
LI2 nodi gwahanol anghenion deietegol ym mhob cyfnod o fywyd [YA3, MC2]		
LI3 esbonio dau gyflwr meddygol sy'n gysylltiedig â deiet anghytwys [DM1, GT1, HR2, HR3, CE2]		
LI4 nodi dau ddefnyddiwr gwasanaeth sydd ag anghenion deietegol penodol [DM1, GT1, HR2, HR3, CE4]	T2 amlinellu cynllun deiet dau ddiwrnod ar gyfer dau ddefnyddiwr gwasanaeth sydd ag anghenion deietegol penodol	Rh1 cyfiawnhau sut mae'r cynllun deiet dau ddiwrnod yn diwallu anghenion deietegol y ddau ddefnyddiwr gwasanaeth
LI5 amlinellu deddfwriaeth berthnasol sy'n ymwneud â pharatoi, coginio a gweini bwyd [YA4]	T3 trafod effeithiau arferion anniogel wrth baratoi, coginio a gweini bwyd mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol.	Rh2 asesu effeithiolrwydd arferion diogel wrth baratoi, coginio a gweini bwyd mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<p>LI6 esbonio'r arferion diogel sy'n angenrheidiol wrth baratoi, coginio a gweini bwyd mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol. [DM1, DM2, GT1, HR2, HR3, CE2, CE4]</p>		

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, mewn bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol